Cyngor Partneriaeth Cymru – 9 Mawrth 2026

15.30 - 17.00

Cyfarfod Microsoft Teams

Sylwadau agoriadol gan y Cadeirydd

Jayne Bryant AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai

1. Croesawodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai (yr Ysgrifennydd Cabinet) yr aelodau i'r cyfarfod, gan nodi bod ymddiheuriadau wedi'u cofnodi gan yr Ysgrifenyddiaeth. Gwahoddodd yr Ysgrifennydd Cabinet unrhyw sylwadau ar y cofnodion blaenorol a oedd wedi'u cylchredeg ymlaen llaw. Ni wnaed unrhyw sylwadau.

2. Gan mai hwn oedd y cyfarfod olaf cyn diwedd tymor y Senedd, manteisiodd yr Ysgrifennydd Cabinet ar y cyfle i ystyried y cynnydd a wnaed yn ystod y tymor hwn o ran tai ac adfywio, a diolchodd i'r aelodau am eu cefnogaeth a'u cyfraniad.

Eitem 1 yr agenda: Llywodraeth Leol yn cefnogi'r Economi Sylfaenol

O dan arweiniad Jane Hutt AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip

3. Croesawodd yr Ysgrifennydd Cabinet ei chyd-Ysgrifennydd Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip, ynghyd â Fran Targett, Cadeirydd Grŵp Llywio Symleiddio Budd-daliadau Cymru, a'r Cyng Anthony Hunt, Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen a llefarydd CLILC, i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd ar Siarter Budd-daliadau Cymru (y Siarter).

4. Agorodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip yr eitem a gwahoddodd Fran Targett a'r Cyng Anthony Hunt i amlinellu'r cynnydd a'r gwaith sy'n parhau o ran gweithredu'r Siarter.

5. Dechreuodd Fran Targett drwy ddiolch i Arweinwyr a swyddogion awdurdodau lleol am eu hymgysylltiad a'u harweinyddiaeth gyson, a thynnodd sylw at y pwyntiau allweddol canlynol:

- Pwysigrwydd sicrhau bod pobl ledled Cymru yn gallu cael mynediad at y budd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt, gan dynnu sylw at rôl ganolog y Siarter.
- Mae'r dystiolaeth yn parhau i ddangos mai grwpiau ymylol sydd fwyaf tebygol o beidio â manteisio ar eu hawliau, gan atgyfnerthu pwysigrwydd y gwaith hwn.
- Nid yw Cam Un y Trywydd wedi'i gwblhau eto, ond mae cynnydd da a gwaith sylweddol wedi'i wneud, yn enwedig o fewn awdurdodau lleol.
- Rhywfaint o siom nad oedd mwy o gynnydd wedi'i wneud, ond pwysleisiwyd bod y rhaglen mewn sefyllfa dda i gyflymu ymhellach yn y dyfodol.
- Roedd cynnydd wedi'i nodi o ran casglu data a mwy o eglurder o ran rhannu data, ochr yn ochr â gwaith parhaus i symleiddio mynediad at fudd-daliadau, gan

gynnwys archwilio sut y gallai data presennol awdurdodau lleol gefnogi'r broses o gofrestru awtomatig neu system ragweithiol o rannu hysbysiadau am hawliau.
- Pwysleisiwyd yr angen i gynnal y momentwm, gan alw am ymrwymiad gwleidyddol a gweithredol cyson i gario'r rhaglen yn ei blaen y tu hwnt i'r cyfarfod olaf o Gyngor Partneriaeth Cymru y tymor hwn.

6. Diolchodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip i Fran Targett am ei gwaith ac am arwain y grŵp llywio, a nododd fod Cam Un wedi goruchwylio gwaith cymhleth ond cynhwysfawr ar draws systemau. Yna tynnodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip sylw at y pwyntiau allweddol ehangach:
- Pwysigrwydd effaith ehangach ymgorffori'r Siarter, yn enwedig o ran hawliau a hawlogaethau, economïau lleol, incwm teuluol a strategaethau ehangach.
- Disgwylir adroddiad cynnydd Cam Un ddechrau mis Ebrill (yn ddelfrydol cyn y cyfnod cyn yr etholiad), a bydd yn cynnwys cyfres o "gynhyrchion" i'r holl awdurdodau lleol eu hystyried a'u mabwysiadu o fewn eu systemau lleol.
- Cydnabuwyd cryfder cydweithredu, gan dynnu sylw at y ffaith bod cytundeb pob un o'r 22 awdurdod a lofnododd y Siarter yn cael ei gydnabod yn genedlaethol ac yn dangos gwaith partneriaeth effeithiol ledled Cymru.
- Roedd angen cynnal y momentwm, ac anogwyd awdurdodau lleol i fwrw ymlaen â'r dysgu a chynnal y cynnydd i mewn i dymor nesaf y Senedd.
- Nodwyd ymweliad diweddar ag Aberdâr, lle adroddodd cynghorydd ar y Gronfa Gynghori Sengl fod £1.7 miliwn wedi dod yn ôl i'r gymuned, gan ddangos gwerth clir gweithio ar y cyd ar heriau data a mynediad at fudd-daliadau.

7. Darparodd y Cyng Anthony Hunt y pwyntiau allweddol canlynol:
- Mynegodd ddiolch a chydnabu'r gwaith caled a'r ymrwymiad a ddangoswyd gan Fran Targett ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip wrth hyrwyddo rhaglen Budd-daliadau Cymru.
- Ailnododd bwrpas creiddiol y gwaith, gan bwysleisio tegwch i'r rhai sydd fwyaf agored i niwed yn ariannol, ac y gall rhoi arian yn uniongyrchol ym mhocedi pobl gael effaith drawsnewidiol ar unigolion a chymunedau, yn enwedig mewn ardaloedd mwy difreintiedig.
- Tynnodd sylw at fanteision ymarferol y rhaglen, gan gynnwys llwybrau mynediad symlach a mwy cyson, a systemau cryfach o ran data gwybodaeth, i helpu pobl i fanteisio ar eu hawliau.
- Talodd deyrnged i staff refeniw a budd-daliadau, gan eu disgrifio fel gweithwyr medrus iawn a oedd yn ymwybodol o effaith eu gwaith ar fywyd go iawn pobl. Cyfeiriwyd at gydwasanaeth budd-daliadau Torfaen a Sir Fynwy, gan nodi brwdfrydedd staff dros ddiwygiadau sy'n cynyddu effeithlonrwydd ac yn cefnogi unigolion yn well.
- Cydnabu'r heriau sy'n codi yn sgil y systemau gwahanol sydd gan gynghorau, ond nododd fod camau sylweddol wedi'u cymryd i oresgyn rhwystrau o ran rhannu data. Tynnwyd sylw hefyd at waith ymchwil i anghenion defnyddwyr a gwaith mapio prosesau, ynghyd â gwerth cynllun peilot Torfaen gyda'r ffurflen ddigidol a ddatblygwyd gan y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol.
- Wrth edrych ymlaen at y ddarpariaeth i'r dyfodol, pwysleisiodd bwysigrwydd cynnal y momentwm, a mynegodd obaith y bydd Llywodraeth nesaf Cymru yn

parhau i flaenoriaethu gwelliannau mewn mynediad at fudd-daliadau Cymru. Nodwyd y gallai gwersi o'r rhaglen hon gefnogi diwygiadau mewn gwasanaethau cyhoeddus ehangach.

8. Codwyd y pwyntiau allweddol canlynol gan yr aelodau:

- Yr angen i ddiogelu**,** gan nodi, ochr yn ochr â mynediad urddasol i fudd-daliadau, fod yn rhaid sicrhau mesurau amddiffyn cryf rhag camddefnydd, yn enwedig wrth i dymor y Senedd ddod i ben, a bod yn rhaid i egwyddorion y Siarter barhau i lywio'r ffordd.
- Pryderon am bwysau yn y dyfodol**,** gan dynnu sylw at gyllidebau tynnach a galw cynyddol, a gofynnwyd pa fecanweithiau neu fesurau diogelu sydd ar waith i warchod uniondeb y system a sicrhau bod cymorth yn parhau i gyrraedd y rhai sydd ei angen fwyaf.

9. Daeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip i ddiwedd ei diweddariad drwy roi sicrwydd i'r aelodau bod y gwaith a wnaed hyd yma yn cryfhau'r mesurau diogelu o fewn system fudd-daliadau Cymru, yn hytrach na'u gwanhau. Nododd fod ymgorffori Siarter Budd-daliadau Cymru a symleiddio llwybrau mynediad yn darparu mecanweithiau cliriach, mwy cadarn, i sicrhau bod hawliau yn cael eu defnyddio'n briodol, gan leihau cyfleoedd ar gyfer camddefnydd ar yr un pryd. Hysbysodd yr aelodau fod yr elfennau sydd wedi'u cryfhau, fel creu un llwybr mynediad, rhannu systemau cais, a threfniadau rhannu data cliriach yn creu prosesau mwy dibynadwy a diogel i drigolion ac awdurdodau lleol, fel ei gilydd.

10. Dilynodd Fran Targett Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip i bwysleisio bod strwythurau diogelu a llywodraethiant cryf eisoes wedi'u sefydlu, yn enwedig drwy'r Grŵp Uwch Swyddogion Cyfrifol, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob un o'r 22 awdurdod lleol, a nododd y bydd yr holl adnoddau, y cynhyrchion a'r deunyddiau a ddatblygwyd drwy Gam Un ar gael i'r cyhoedd drwy CLILC neu'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol, gan sicrhau tryloywder ac na chollir unrhyw waith, beth bynnag fo'r cylchoedd gwleidyddol.

Eitem 2 yr agenda: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

O dan arweiniad Derek Walker, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

11. Croesawodd yr Ysgrifennydd Cabinet Derek Walker, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (y Comisiynydd) i'r cyfarfod i drafod y cynnydd a wnaed dros y deng mlynedd diwethaf ers i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ddod i rym, ynghyd ag Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2025.

12. Diolchodd y Comisiynydd i'r Ysgrifennydd Cabinet am y gwahoddiad i'r cyfarfod, a dywedodd fod Adroddiad statudol Cenedlaethau'r Dyfodol, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2025, yn rhan o'r ddeddfwriaeth i asesu'r cynnydd sy'n cael ei wneud ac i wneud argymhellion lle mae angen gweithredu ymhellach.

13. Rhoddodd y Comisiynydd y wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am y cynnydd a wnaed mewn ymateb i'r argymhellion a nodir yn yr adroddiad, gan gynnwys lle roedd angen gweithredu ar y cyd i gyflymu'r cyflawni a chryfhau atebolrwydd.

14. Yn benodol, canolbwyntiodd diweddariad y Comisiynydd ar y pum maes canlynol:

i) Y System Fwyd

- Nododd fod y system fwyd bresennol yn anghynaliadwy a bod angen ei diwygio'n sylweddol.
- Mae'r argymhellion yn cynnwys datblygu cynlluniau gwydnwch systemau bwyd, cryfhau cadwyni cyflenwi lleol, lleihau bwydydd sydd wedi'u prosesu'n helaeth mewn lleoliadau cyhoeddus, ac ehangu menter Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion.
- Nododd ymateb cryf gan awdurdodau lleol, bod cynghorau pellach wedi ymuno â menter Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion, rhai wedi cael gwared ar fwydydd sydd wedi'u prosesu'n helaeth yn gyfan gwbl, a sawl corff cyhoeddus wedi ymrwymo i gynlluniau gwydnwch systemau.

ii) Creu Lleoedd

- Anogodd awdurdodau i fabwysiadu'r Siarter Creu Lleoedd.
- Nododd ymatebion cadarnhaol gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, a bod Rhondda Cynon Taf ac Ynys Môn wedi ymrwymo i'r Siarter ers ei chyhoeddi.
- Roedd cyrff cyhoeddus am gael arweiniad a chefnogaeth gliriach, ac roedd y Comisiynydd yn ymrwymo i ddarparu hynny.

iii) Hinsawdd a Natur

- Galwodd am gamau cryfach i addasu i'r hinsawdd, i gynllunio ar gyfer gwydnwch, ac i adfer natur.
- Croesawodd y ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi derbyn targedau natur, ac anogodd gynghorau i ddefnyddio asedau a thir cyhoeddus mewn ffordd fwy rhagweithiol.

iv) Gwariant Ataliol

- Tynnodd sylw at heriau o ran symud cyllidebau i gyfeiriad dulliau ataliol.
- Mae cynlluniau peilot gyda chynghorau ac un bwrdd iechyd wedi nodi diffiniadau cliriach o wariant ataliol a chyfleoedd i osod targedau atal yn y dyfodol heb fod angen cyllid ychwanegol.

v) Y Cyflog Byw Gwirioneddol

- Argymhellodd y dylai pob corff cyhoeddus weithio tuag at achrediad Cyflog Byw Gwirioneddol.
- Nododd gefnogaeth eang, a bod sawl awdurdod eisoes wedi'u hachredu.
- Cyflwynodd dystiolaeth o fanteision cymdeithasol ac economaidd hirdymor cynyddu'r Cyflog Byw Gwirioneddol.

15. Codwyd y pwyntiau allweddol canlynol gan yr aelodau:

- Gwerthfawrogwyd y diweddariad ar wariant ataliol.

- Cwestiynwyd a yw'r gwaith o fapio cyllidebau yn ystyried cyfraniad sefydliadau'r trydydd sector a'r gymuned, a'u rôl sylweddol o ran atal problemau yn y dyfodol, ynghyd â'r ansicrwydd y maent yn aml yn ei wynebu mewn perthynas â chyllid.
- Nodwyd bod gwaith yn cael ei ddyblygu ar draws strwythurau partneriaeth, a chwestiynwyd a yw'r trefniant presennol o ran byrddau partneriaeth yn parhau i fod yn briodol, a sut y dylid mynd i'r afael â rhwymedigaethau statudol a chyfrifoldebau sy'n gorgyffwrdd yn y dyfodol.
- Mynegwyd pryderon ynghylch achrediad Cyflog Byw Gwirioneddol, yn benodol a yw'r ymrwymiadau yn ymestyn y tu hwnt i staff a gyflogir yn uniongyrchol i gynnwys gweithwyr sy'n darparu gwasanaethau a gomisiynir neu dan gontract, ac a oes tystiolaeth bod y gofynion o ran Cyflog Byw Gwirioneddol yn cael eu hymgorffori'n gyson mewn contractau o'r fath.
- Ymatebodd y Comisiynydd i bob un o'r pwyntiau a godwyd gan yr aelodau, a diolchodd i'r aelodau am barhau yn eu hymrwymiad i'r Ddeddf a'u hymgysylltiad â hi, gan nodi y bydd angen i'r gwaith barhau y tu hwnt i etholiad y Senedd.

Eitem 3 yr agenda: Newid Hinsawdd

O dan arweiniad y Cyng John Spanswick, Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

16. Cyflwynodd yr Ysgrifennydd Cabinet yr eitem sefydlog ar newid hinsawdd, gan nodi'r pwyntiau allweddol canlynol:

- Mae targed Cymru ar gyfer sero net erbyn 2050 wedi'i nodi mewn deddfwriaeth, ac mae'r cyllidebau carbon tair blynedd yn nodi'r llwybr a'r polisïau i'w gyflawni.
- Disgwylir i Gyllideb Garbon 3, sy'n cwmpasu gostyngiad allyriadau yng Nghymru yn 2026-2030, gael ei chyhoeddi yn ddiweddarach eleni yn unol â'r amserlen statudol. Bydd Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â phartneriaid dros y misoedd nesaf wrth i'r cynllun gael ei ddatblygu.
- Cyhoeddwyd Fframwaith Pontio Teg newydd, sy'n darparu egwyddorion a chanllawiau ar gyfer datblygu cynlluniau, ac sy'n gweithredu fel egwyddor arweiniol i Lywodraeth Cymru wrth i Gyllideb Garbon 3 gael ei datblygu.
- Mae'r uchelgais gyffredin i greu sector cyhoeddus sero net yng Nghymru erbyn 2030 eisoes wedi ysgogi gweithredu ac arweinyddiaeth amlwg ar draws cyrff cyhoeddus, gan gymell newidiadau systematig a gwelliannau ar draws fflydoedd, ystadau a defnydd tir.

17. Rhoddodd y Cyng John Spanswick ddiweddariad ar ran Panel Strategaeth Newid Hinsawdd Llywodraeth Leol. Dyma rai o'r negeseuon allweddol:

- Sefydlwyd y Panel yn wreiddiol ar gais y Cyngor Partneriaeth yn 2020, ac roedd hwn yn gyfle i dynnu sylw at y cynnydd a wnaed ers hynny.
- Canolbwyntiodd Cyllideb Garbon 2 (2021–2025) ar gaffael, trafnidiaeth, defnydd tir ac adeiladau, meysydd lle gall awdurdodau lleol ostwng allyriadau yn sylweddol. Cyfeiriwyd ymhellach at y gefnogaeth helaeth a ddarperir drwy Raglen Cefnogi Newid Hinsawdd CLILC, gan gynnwys canllawiau, recordiadau a gweminarau sydd ar gael i bob awdurdod.

- Bydd Cyllideb Garbon 3 (2026–2030) yn parhau â'r gwaith hwn. Croesawyd y profiad a'r gallu cryfach o fewn y grwpiau gorchwyl a gorffen, ac roedd cefnogaeth i'r argymhelliad y dylent ddechrau gweithredu fel grwpiau llywio ffurfiol er mwyn ysgogi cyflawni strwythuredig.
- Pwysleisiwyd pwysigrwydd parhad gwaith y Cyngor Partneriaeth o ran hyrwyddo camau gweithredu yn ymwneud â'r hinsawdd.
- Roedd yna deimlad y gellid cyflawni llawer o'r newidiadau gofynnol fel rhan o fusnes bob dydd, yn hytrach na thrwy gyllid newydd neu ychwanegol, er enghraifft, integreiddio camau i ddelio â heriau newid hinsawdd wrth adeiladu ysgolion newydd, neu seilwaith gwefru cerbydau trydan. Tynnwyd sylw at gamau i ddelio â heriau newid hinsawdd ac addasu iddo fel meysydd ffocws sy'n tyfu, gan adlewyrchu blaenoriaethau gweinidogol.
- Tynnwyd sylw at bwysigrwydd dulliau gweithredu sy'n ystyried yr ardal leol, o gofio dylanwad awdurdodau lleol ar draws systemau allweddol fel cynllunio, trafnidiaeth, tai, gwastraff ac addysg.

18. Daeth y diweddariad i ben drwy gydnabod y cynnydd hyd yma a phwysleisio'r angen i gynnal yr ymrwymiad wrth i'r gwaith symud i Gam 3. Cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Cabinet gytundeb y Cyngor Partneriaeth i'r argymhellion a nodir yn yr adroddiad diweddaraf.

Eitem 4 yr agenda: Cytundeb Partneriaeth Strategol rhwng Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol yng Nghymru

O dan arweiniad Jayne Bryant AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai a'r Cyng Andrew Morgan, Arweinydd CLILC

19. Arweiniodd yr Ysgrifennydd Cabinet a'r Cyng Andrew Morgan (Arweinydd CLILC) yr eitem ar y Cytundeb Partneriaeth Strategol (y Cytundeb).

20. Amlinellodd yr Ysgrifennydd Cabinet bwrpas y Cytundeb, gan gydnabod pwysigrwydd sicrhau bod Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol yn cydweithio er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i bobl Cymru. Tynnodd yr Ysgrifennydd Cabinet sylw at rôl y Cytundeb wrth ymgymryd â ffyrdd newydd o weithio i sicrhau bod gwaith partneriaeth yn egwyddor sefydledig o'r cychwyn cyntaf, yn hytrach nag yn opsiwn ychwanegol.

21. Tynnodd yr Ysgrifennydd Cabinet sylw hefyd at y ffaith bod y Cytundeb wedi'i ddatblygu fel dogfen a fydd yn newid, ac ymrwymwyd i'w adolygu'n flynyddol. Er bod y Cytundeb yn dal i fod yn gymharol newydd, roedd Llywodraeth Cymru a CLILC wedi cynnal adolygiad arwynebol ar y cyd o'r graddau yr oedd y Cytundeb yn ymsefydlu yn y dyddiau cynnar hyn.

22. Amlinellodd yr Ysgrifennydd Cabinet ganfyddiadau cynnar gan Lywodraeth Cymru, a oedd yn dangos bod y Cytundeb yn cael ei ddefnyddio'n dda mewn rhai meysydd - yn enwedig trafnidiaeth, newid hinsawdd a gofal cymdeithasol. Roedd adborth yn cadarnhau bod awydd amlwg ymhlith swyddogion Llywodraeth Cymru i'r Cytundeb chwarae rôl gryfach a mwy cyson, yn enwedig mewn perthynas â

gwaith rhwng portffolios a thrafodaethau cyllid hirdymor. Roedd yna deimlad bod lle i wella dealltwriaeth pobl o'r Cytundeb, ac iddo gael ei gymhwyso'n fwy cyson ar draws adrannau, i sicrhau ei fod yn cael ei ymgorffori'n gadarn mewn prosesau polisi craidd.

23. Gorffennodd yr Ysgrifennydd Cabinet drwy bwysleisio, er bod y Cytundeb wedi'i ddatblygu rhwng Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol yng Nghymru, ei fod wedi'i gynllunio i ategu Cynllun y Trydydd Sector a'r cod ymarfer ar gyfer ei ariannu, ac y dylai pob partner gofleidio ei egwyddorion o gydweithio drwy bartneriaeth o ymddiriedaeth a gwireddu manteision y ffyrdd hynny o weithio.

24. Cyn gwahodd aelodau eraill i rannu eu sylwadau am y Cytundeb a sut y mae'n cael ei ymgorffori o fewn eu hawdurdodau nhw, rhoddodd y Cyng Andrew Morgan ddiweddariad o safbwynt CLlLC.

25. Dyma rai o bwyntiau allweddol y Cyng Morgan:

- Er bod y Cytundeb yn dal i fod yn gymharol newydd, mae eisoes wedi helpu i dynnu sylw at y gwaith cydweithredol sy'n digwydd ar draws llywodraeth leol a Llywodraeth Cymru, a phwysleisiwyd pwysigrwydd ei ymgorffori yn ein ffyrdd o weithio.
- Ni ddylai gwaith partneriaeth cryf fod yn ddibynnol ar berthynas neu bersonoliaeth; dylai ddigwydd beth bynnag.
- Mae'r Cytundeb yn pwysleisio pwysigrwydd cydweithio, a gobeithio y bydd yn lleihau achosion lle mae awdurdodau lleol yn teimlo bod penderfyniadau yn cael eu gwneud *amdanyn* nhw yn hytrach na *chyda* nhw.
- Mae'r Cytundeb yn gam pwysig ymlaen, ond dim ond os bydd Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol yn parhau i gymryd camau i ymgorffori'r egwyddorion mewn ffyrdd newydd o weithio y bydd ei werth yn cael ei wireddu.

26. Codwyd y pwyntiau allweddol canlynol gan yr aelodau:

- Nodwyd cefnogaeth i'r Cytundeb, a gwnaed y pwynt bod gwaith partneriaeth ystyrlon yn galw am ymateb gweithredol gan bob haen o lywodraeth, gan gynnwys Llywodraeth y DU. Dyfynnwyd enghraifft ddiweddar lle na wnaeth cynlluniau ar gyfer ymgysylltu teirochrog ar y Gronfa Twf Lleol gael eu rhoi ar waith, sy'n dangos yr her sydd ynghlwm wrth sicrhau gwaith partneriaeth gwirioneddol.
- Tynnwyd sylw at werth y Cytundeb fel fframwaith disgwyliadau cyffredin, gan nodi bod enghreifftiau cadarnhaol a negyddol o waith partneriaeth yn dangos pam mae dull clir a chyson yn bwysig.
- Pwysleisiwyd bod yn rhaid wrth ddeialog ystyrlon ac eglurder ar gyllid wrth ymgymryd â gwaith partneriaeth, gan sicrhau bod pawb yn deall yr amcanion wrth drosglwyddo adnoddau o Lywodraeth Cymru i awdurdodau lleol. Cyfeiriwyd at drafodaeth ddiweddar Fforwm Gwledig CLlLC fel enghraifft gref o ymgysylltu dwy-ffordd adeiladol a ddylai ddangos y ffordd i'r dyfodol.
- Croesawyd y Cytundeb fel datblygiad cadarnhaol sy'n gydnaws â fframweithiau partneriaeth presennol y trydydd sector, gan gynnwys Cynllun y Trydydd Sector a'r cod ymarfer ar gyfer ei ariannu. Awgrymwyd y dylai'r tri fframwaith hyn weithio gyda'i gilydd i sicrhau cysondeb, dysgu ar y cyd, a rolau clir ar draws pob sector.

27. I gloi, cydnabu'r Ysgrifennydd Cabinet a'r Cyng Morgan ei bod yn dal yn ddyddiau cynnar ar y Cytundeb, ond ei fod eisoes yn dangos arwyddion cadarnhaol o gryfhau gwaith partneriaeth, a diolchwyd i'r holl aelodau am eu hymrwymiad parhaus.

Eitem 5 yr agenda: Adolygiad o Gyngor Partneriaeth Cymru (Ebrill 2022 – Mawrth 2026)

O dan arweiniad Jane Bryant AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai

28. Cyflwynodd yr Ysgrifennydd Cabinet yr eitem olaf, sef yr adolygiad pedair blynedd o Gyngor Partneriaeth Cymru.

29. Ystyriodd yr Ysgrifennydd Cabinet ei chyfnod yn arwain Cyngor Partneriaeth Cymru, a nododd yr ymgysylltiad cyson, cadarnhaol, adeiladol a chydweithredol gan aelodau. Tynnodd sylw at werth y Cyngor Partneriaeth fel fforwm i drafod yn agored a thryloyw y blaenoriaethau a'r heriau cyffredin sydd yna o fewn y gwasanaethau cyhoeddus, a thynnodd sylw at yr adroddiad a gyflwynwyd yn y cyfarfod, sy'n cyfleu'r cynnydd a wnaed ar y cyd ar faterion fel y newid yn yr hinsawdd a Siarter Budd-daliadau Cymru mewn ymateb i'r argyfwng costau byw.

30. Pwysleisiodd yr Ysgrifennydd Cabinet bwysigrwydd y Cyngor Partneriaeth fel fforwm uchel ei barch ar gyfer gwaith trawslywodraethol. Cyfeiriodd hefyd at y gydnabyddiaeth i rôl Cyngor Partneriaeth Cymru yn yr Ymchwiliad i Covid-19 (Modiwl 2), a amlygodd ei effeithiolrwydd wrth gefnogi ymgysylltu a chyfathrebu rhwng Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol yn ystod y pandemig.

31. Gwahoddodd yr Ysgrifennydd Cabinet sylwadau terfynol cyn i'r adroddiad gael ei osod gerbron y Senedd, gan gadarnhau y byddai sylwadau ysgrifenedig yn cael eu croesawu erbyn dydd Gwener 13 Mawrth.

32. Diolchodd y Cyng Morgan i'r Ysgrifennydd Cabinet a'r gweinidogion blaenorol am barhau i ymgysylltu â llywodraeth leol, gan nodi bod cydnabyddiaeth gyffredinol i waith partneriaeth Cymru fel arfer da. Pwysleisiodd bwysigrwydd cydweithio rhwng partneriaid er mwyn llywio cydflaenoriaethau, ynghyd â phwysigrwydd deialog gynnar ac eglurder ynghylch canlyniadau.

Sylwadau i gloi

Jayne Bryant AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai

33. Daeth yr Ysgrifennydd Cabinet â'r cyfarfod i ben drwy ddiolch yn ddiffuant i'r holl aelodau am eu hymgysylltiad adeiladol yn y cyfarfod hwn a phob cyfarfod, ac am eu harweinyddiaeth barhaus ar ran cymunedau ledled Cymru.